# Cofnodion Fforwm Mynediad Ysgolion Gwynedd

Addysg

**Dydd Llun, Gorffennaf 7fed 2025 am 10.00**
**Cyfarfod Microsoft Teams**

**Yn bresennol:** Gwern ap Rhisiart, Alison Halliday, Debbie Jones, Ffion Edwards Ellis, Owain Dewi Hughes, Ffion Griffith (cofnodi), Joanna Thomas, Colette Owen, Aimee Jones

**Ymddiheuriadau:**

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r Fforwm. Nodwyd nad ydi'r Fforwm wedi cyfarfod ers sawl blwyddyn bellach felly mae'r drefn yn cael ei ail sefydlu o'r newydd.

2. **Ethol Cadeirydd**

Cynigiwyd ac eiliwyd Gwern ap Rhisiart fel Cadeirydd y Fforwm.

3. **Ethol Is-Gadeirydd**

Cynigiwyd ac eiliwyd Debbie Jones fel Is Gadeirydd y Fforwm.

4. **Aelodaeth Fforwm Mynediad Ysgolion Gwynedd**

Mae'r tabl gydag aelodaeth y Fforwm yn rhan o'r Cylch Gorchwyl sydd eisoes wedi ei rannu. Nododd DAWJ bod y tabl yma'n aelodaeth statudol o fewn y Cod Mynediad, ond bod modd i'r Awdurdod benderfynu faint fydd yn cynrychioli pob sector. Mae angen cynrychiolaeth o'r Fforwm Llywodraethwyr a hefyd Pennaeth Cynradd ar y Fforwm hwn. Ategodd bod modd cael hyd at 3 cynrychiolydd cymunedol e.e. i gynrychioli grŵp penodol (megis os oes nifer helaeth o ffoaduriaid o fewn ardal benodol er enghraifft). Cytunwyd fel mae'r Fforwm yn esblygu i fod yn ystyried gwahodd cynrychiolwyr cymunedol, ac i beidio â'u cynnwys am y tro. Yn yr un modd, mae modd gwahodd yr Aelod Cabinet neu aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg os oes angen, ond am y tro mae 5 swyddog Addysg wedi eu nodi.

5. **Cyflwyniad i'r Cylch Gorchwyl Drafft**

Mae fersiwn drafft eisoes wedi cael ei rannu ac aethpwyd drwyddo fesul adran. Ni dderbyniwyd sylwadau. Diolchwyd i DAWJ am lunio'r cylch gorchwyl a chytunwyd i'w dderbyn fel y mae. Nodwyd bod modd ei ddiwygio neu ei ddatblygu ymhellach ar unrhyw adeg.

6. **Cyflwyniad i'r Cod Mynediad**

Cafwyd cyflwyniad gan ODH. Dolen eisoes wedi ei rannu i'r cod mynediad hefyd.

7. **Llawlyfr i Rieni / Prosbectws Ysgolion**

Mae'r copi mwyaf cyfredol wedi cael ei rannu gyda phapurau'r cyfarfod. Nododd ODH bod diwyg y ddogfen wedi newid eleni ac mae wedi cael ei foderneiddio rhywfaint. Dogfen Word ydi o fel bod o'n hawdd i'w addasu fel bo angen. Nododd ODH ei fod wedi ei rannu gyda Swyddogion wythnos yma i ofyn a ydynt yn hapus gyda'r fersiwn yma cyn ei rannu ar wefan y Cyngor ar gyfer dechrau'r flwyddyn addysgol nesaf. Mae o ar gael ar wefan y Cyngor i rieni ddarllen. Pan mae rhieni yn gwneud cais am fynediad i ysgol mae lle iddynt dicio bocs i nodi eu bod nhw wedi darllen y llawlyfr. Nododd AJ mewn cyfarfod ymysg Penaethiaid Ysgolion Gatholig bod sgwrs wedi bod am addasu rhywfaint ar y polisi mynediad **a chytunodd i anfon unrhyw newid at ODH er mwyn iddo ei gynnwys ym mholisi Gwynedd.**

Gyda'r llawlyfr yn cyfeirio at bethau fel Polisi Cludiant, Polisi Seddi Gweigion ac ati, holodd GapRh os ydi'n rhwydd i rieni gyrraedd at y rhain? Nododd ODH ar dudalen cludiant y wefan mae dolen i'r llawlyfr rhieni, ond mae angen sicrhau bod popeth yn cyd-fynd.

Nododd FfEE bod modd tynnu'r wybodaeth am Ddatganiadau allan o'r adran ADY ar y llawlyfr erbyn hyn. Nododd DAWJ bod angen addasu arweiniad cludiant am fod canllawiau Gwynedd yn cael eu haddasu i fod yn fwy clir - mi fydd y gofyn statudol yn aros yr un fath. Bydd angen sicrhau bod unrhyw newid i'r safle cludiant ar wefan y Cyngor yn cael ei adlewyrchu yn y llawlyfr hefyd.

**8. Blaenraglen y Fforwm Mynediad Ysgolion Gwynedd**

Mae'r flaenraglen eisoes wedi cael ei rhannu gyda phapurau cyfarfod heddiw, ac mae'n rhoi syniad o'r eitemau sydd angen eu trafod flwyddyn nesaf. Mae dogfen Excel wedi ei rhannu hefyd sy'n rhoi darlun o lif amserlen gwaith sydd ynghlwm a threfniadau mynediad ysgolion. Nodwyd bod modd addasu'r flaenraglen wrth i amser fynd ymlaen. Nododd CO byddai'n syniad cynnwys eitem i gael sgwrs am sefyllfa apeliadau'r Awdurdod yn y cyfarfod yma hefyd.
Cytunwyd gyda chynnwys y blaenraglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**9. Unrhyw Fater Arall**

Nododd ODH o ran cyflwyno gwybodaeth drafft o'r rowndiau arferol, bod y rownd arferol ar gyfer Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 7 yn tua 1000 ar gyfer pob blwyddyn - mae hyn yn ostyngiad i beth mae wedi arfer bod (tua 1300) yn sgil sefyllfa genedigaethau Gwynedd. Nodwyd bod 100% wedi cael eu dewis cyntaf o'r Ysgolion Uwchradd, gyda llai na 10 disgybl dal heb wneud eu dewis. Nodwyd bod pob plentyn ar gyfer y Meithrin a Derbyn wedi cael eu dewis cyntaf oni bai am oddeutu 10 plentyn a oedd wedi gwneud cais i fynd i Ysgol Cae Top. Tydi mynediad ddim yn bwnc cynhennus iawn yng Ngwynedd o gymharu â llawer o ardaloedd eraill o bosib. Eithriad bychan iawn ydi gorfod gwrthod cais yng Ngwynedd. Ategodd nad ydi'r data yma yn cynnwys data mynediad Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen. Nododd bod deddfwriaeth newydd yn dod i rym sy'n golygu bod rhaid i ysgolion Catholig ac Awdurdodau gydweithio fel bod y cais yn dod drwy'r Awdurdod, gyda'r Awdurdod yn pasio ceisiadau at yr Ysgolion. Yr Awdurdod fydd wedyn yn hysbysu'r rhieni o'r canlyniad. Holodd CE gyda'r ddeddf newydd os oes dal modd i'r ysgolion hyn wneud cais am wybodaeth ychwanegol gan rieni? Nodwyd bod hynny dal yn bosibl.
Nododd JT fel Pennaeth Y Faenol bod rhif yr ysgol wedi codi i 45. Cafwyd 32 cais i'r dosbarth Derbyn eleni ac mae'r ysgol wedi derbyn pawb gyda'r gobaith bydd lle'n dod ar gael yng Nghae Top. Mae rhif derbyn o 45 yn anodd gan ydi'r ysgol yn cyrraedd nifer y ceisiadau o ran cael dosbarth a hanner i'r flwyddyn. Cytunwyd bod sefyllfa dalgylch Bangor yn gymhleth.
Ategodd ODH bod meddalwedd mynediad newydd yn dod i mewn yn Genedlaethol. Mae hi'n system fasnachol a byddem yn elwa o hynny – yr unig anfantais ydi byddem yn colli peth hyblygrwydd.

**10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Nodwyd bod y dyddiadau wedi cael eu cynnwys ar y blaenraglen a bydd FMG yn anfon cais cyfarfod at bawb.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod cyntaf.